# y dinesydd

Tachwedd 1998 — PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH — Rhif 241


# A. O. H. Jarman (1911-1998)

**Ar 26 Hydref, bu farw'r ysgolhaig a'r cenedlaetholwr amlwg, yr Athro A. O. H. Jarman, cyn-bennaeth Adran y Gymraeg yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Gofynnwyd i'w gyfaill, y Dr Ceinwen H. Thomas – a fu am flynyddoedd yn cyfarwyddo'r Uned Ymchwil Ieithyddol a sefydlodd yr Athro yn Adran y Gymraeg – i lunio teyrnged iddo ar gyfer *Y Dinesydd*.**

**Yn ei angladd, darllenwyd englyn i'r Athro a gyfansoddwyd gan gydweithiwr arall iddo yn Adran y Gymraeg, Gilbert Ruddock, ac fe'i cyhoeddir yma ar ddiwedd teyrnged Dr Thomas gyda chaniatâd caredig Mr Ruddock.**



A.O.H. ac Eldra Jarman

Dichon fod y rhan fwyaf o ddarllenwyr *Y Dinesydd* wedi clywed ar Newyddion Post Prynhawn, nos Lun, 26 Hydref fod yr Athro A. O. H. Jarman wedi marw, ac wedi gwrando yn union wedyn ar yr Athro Caerwyn Williams yn manylu ar gyfraniad sylweddol yr Athro Jarman i ysgolheictod Cymraeg. Mae'n gweddu i'r *Dinesydd* hefyd gofio amdano fel un o drigolion dinas Caerdydd.

Yr oedd yr Athro Jarman yn enedigol o Fangor, ac yng Ngholeg y Brifysgol yno y cafodd ei raddau yn y Gymraeg ac o dan nawdd Adran Allanol y Coleg hwnnw hefyd y bu wedyn, am gyfnod, yn cynnal dosbarthiadau nos. Yn y cyfnod hwnnw hefyd y daeth i gysylltiad â'r Blaid Genedlaethol - Plaid Cymru, bellach - y bu'n aelod ffyddlon ohoni am weddill ei oes. Wrth ddarllen ei gyfraniadau i'r *Ddraig Goch*, papur y Blaid honno a chwrdd ag ef yn ei hysgolion haf y deuthum innau i adnabyddiaeth ohono. Pan ddaeth yr Ail Ryfel Byd yr oedd yn ddigon o heddychwr a digon brwd fel cenedlaetholwr i wrthod cymryd ei alw i luoedd arfog Prydain a chafodd ei yrru am gyfnod i garchar yn Lloegr. Wedi i'r Athro G. J. Williams ddod yn bennaeth Adran y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, cafodd Jarman ei benodi'n ddarlithydd yn yr Adran honno, ac yn yr Adran honno, gan ddilyn G. J. Williams yn ei dro yn bennaeth y bu, gan ennill enw da iddo'i hun fel ysgolhaig Cymraeg, nes ymddeol yn niwedd y saithdegau.

Yn y cyfnod o newid athrawon, cafodd yr Adran wybod bod adnoddau ar gael i ddatblygu uned arbennig i ymchwilio i'r iaith Gymraeg fel y cyfryw. Penderfynodd yr Athro Jarman ddechrau trwy ganolbwyntio ar y tafodieithoedd a bûm innau'n ddigon ffodus i gael fy mhenodi i'r swydd gyntaf. Nid hwn oedd diddordeb arbennig yr Athro, ond yn y maes hwn, fel ymhopeth arall, yr oedd yn benderfynol ei fod yn cael ei wneud yn iawn. Cefais fy anfon i Brifysgol Llundain, i ddysgu seineg a ieithyddiaeth fodern, fel y cafodd fy nghyd-ddarlithydd, Mr Glyn Evans Jones, yn ei dro. Sicrhaodd yr Athro hefyd fod myfyrwyr yr Adran yn ymddiddori yng ngwaith yr uned ac nad oedd ball ar fyfyrwyr ymchwil. O ganlyniad llwyddasom i sicrhau gwaith ymchwil ar nifer o dafodieithoedd y de-ddwyrain, megis Merthyr Tudful, Hirwaun, Y Rhigos, Tafarnau Bach, Coety Walia, ac ardal Llangennech yn Sir Gaerfyrddin. Llwyddais innau i ychwanegu disgrifiad o dafodiaith Nantgarw yng Nghwm Taf, yn ymyl Caerdydd, a disgrifiodd Mr G. E. Jones (a ddaeth wedi hynny, wrth gwrs, yn bennaeth Adran y Gymraeg), iaith Mynydd Epynt a'r cylch ym Mrycheiniog. Yr oeddem yn ddyledus am hyn oll i gefnogaeth a diddordeb yr Athro.

Bydd y golled yn fawr i Mrs Eldra Jarman, ei briod, a'i ferched Teleri a Nia a'u teuluoedd, ac yn fawr hefyd i ysgolheictod y Gymraeg, heb sôn am fywyd Cymraeg Caerdydd.

**Ceinwen H. Thomas**

Athro manwl a thra mwynaidd - tawel
Y tywys, a gwylaidd.
Teg ei farn, nid haearnaidd,
A'i drem drwy dwyllwyr a draidd.

**Gilbert Ruddock**

## Y Sêr yn Salem

Unwaith eto, fe fydd y Sêr yn dod i Salem ym mis Rhagfyr! Erbyn hyn, mae eu hymweliad blynyddol â'r capel yn achlysur sy'n rhoi pleser mawr i lawer iawn o Gymry'r ddinas ac yn fodd i roi cychwyn da i ddathliadau'r Nadolig. Mwy na hynny, mae holl elw'r noson yn mynd i chwyddo coffrau un o'r elusennau sy'n cynnig cymorth i wledydd y Trydydd Byd.

Nid yr un Sêr sy'n ymddangos bob blwyddyn, wrth gwrs, ac eleni mae'r rhestr ohonyn nhw yn un arbennig o ddisglair! Fe fydd yr unawdwyr Caryl Parry Jones, Heather Jones a Teifryn Rees yno i'n diddanu ynghyd â'r actor Brinley Jenkins - ac atyn nhw, fe ddaw dau gôr - Côr Caerdydd dan ei arweinydd Gwawr Owen, a chôr disgyblion Ysgol Pen-cae.

Diolch yn fawr iddynt oll am eu gwasanaeth a gobeithio y bydd yno gynulleidfa gref i fwynhau'r wledd - ac i gyfrannu at yr achos.

Cynhelir "Sêr yn Salem" am 7.30 p.m. nos Sadwrn, Rhagfyr 5 yng Nghapel Salem, Market Rd, Treganna.

Tocynnau - £4, a £1 i blant - ar gael gan Mrs Doreen Thomas (01222) 212760, gan aelodau Salem, a chan werthwyr yn eglwysi Cymraeg y ddinas.

# Y Dinesydd

**Tachwedd 1998, Rhif 241.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Rhagfyr at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 30 Tachwedd:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 333080)
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Mrs Siriol Wilde, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 405499)
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).
**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 01222-623749)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................

................................................ Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................


................................................ Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 3** **Tachwedd 1998**



**Ar Draws**

2. Y llesga' yn neidio i'r adain 5
5. Man tawel, dosbarth di-ddiwedd yn Lloegr 4
7. Cymer pawb dewr bob yn ail 4
8. Daw Santa mewn dryswch garw 8
9. Gorchfygu a chodi'n uwch 8
11. 22 yn troi a gweiddi 4
12. 'Mae saeth y bwa rhwng ein bys a'n bawd
A'r ddawns ....... yn ein traed' (Gwenallt) 13
15. Angen rhywbeth am ddim oddeutu'r 1af o Ionawr 4
17. Iaith leiafrifol, gên yw er enghraifft yn Lloegr 8
19. 'Sôn am dy gariad ..... .....
A'r nos am wirioneddau gras' cyf. D.J. 4,4
21. Pum cant yng nghanol cynnal ymryson 4
22. 11 yn troi'n wlyb 4
23 Seiniau tebyg rhannau ôl y traed yn colli eu blaen 5

**I Lawr**

1. 'Byw heb fachlud haul un amser,
Byw heb gwmwl, byw ..... .....' W.W. 3,4
2. Amser di-ben-draw ar chwâl 3
3. Lle i argraffu rhan o'r corff 5
4. Gorfoledd yn lladd y wên rywsut 7
5. Gorchudd annymunol 3
6. Prin y chwyth mil yn lle pum cant 5
10 Ysbryd Deian yn cynhyrfu 5
11. Lle i orwedd yn swnio'n boenus 5
13. Ymneilltuo Colin, ie, rywsut 7
14. Pwdin reis Del yn achosi'r felan? 7
16 Largo tymhestlog yn peri gwynt 5
18. Rhywbeth miniog o dras Almaenig 5
20. Eilun yn colli ei ben er budd 3
21. Pâr yn dechrau dawnsio ag urddas 3

**Atebion Croesair 2 (Hydref 1998)**

**Ar Draws**: 7.Dy wyneb grasol; 8.Rhan amser; 9.Reis; 10.Llanc; 12.Annedd; 15.Hosan; 16.Gwar; 18.Gele; 19.Croesair; 21.Tylluan gorniog.

**I Lawr**: 1.Cyfaddas; 2.Cylla; 3.Ceisiais; 4.Agor; 5.Mawreddog; 6.Robin; 11.Cyhoeddus; 13.Nanhoron; 14.Pabi coch; 17.Melyn; 19.Cant; 20.Sant.

**Cystadleuaeth Tachwedd 1998**

Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 30 Tachwedd.

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## Calendr y Dinesydd

**Sadwrn, 28 Tachwedd**
Ffair Gaeaf Ysgol Gyfun Glantaf am 1.00 p.m. ar safle'r ysgol.
**Sadwrn, 28 Tachwedd**
Clwb Ifor Bach: Gig er budd TENOVUS gyda'r Hennesseys a Heather Jones, am 8 p.m.
**Mercher, 2 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: Trefnu blodau ar gyfer y Nadolig, yng nghwmni Rosalind Bowen, yn festri Eglwys y Methodistiaid, Radur, am 7.30p.m.
**Gwener, 4 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd: Noson o gerddoriaeth yng nghwmni Telynores Llwchwr, yn neuadd Eglwys y Tabernacl, Yr Ais, am 7.15 p.m.
**Sadwrn, 5 Rhagfyr**
Ffair Nadolig Ysgol Melin Gruffydd am 10.30 a.m. ar safle'r ysgol.
**Sadwrn, 5 Rhagfyr**
Cyngerdd 'Sêr yn Salem' yng Nghapel Salem, Market Road, Treganna, am 7.30 p.m. Yr elw at achosion yn y Trydydd Byd.
**Llun, 7 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Rhagflas o'r Nadolig yng nghwmni Eilonwy Jones, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**Llun, 7 Rhagfyr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Sgiliau a Rhwydweithiau Dyfodol Cymru.' Darlith gan Gareth Pierce ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.
**Mercher-Sadwrn, 9-12 Rhagfyr**
Dathliad 'Y Goeden Nadolig' yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Manylion pellach: 01222-573485.
**Mercher, 9 Rhagfyr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Gwasanaeth Nadolig dan ofal Dyrinos Thomas ac Aled Edwards yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Gwener, 11 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Cyngerdd Nadolig Côr Plant Caerdydd (Arweinydd: Mair Robins), yng Nghapel Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m. Casgliad at Bobath Cymru.
**Gwener, 11 Rhagfyr**
Cymry'r Wenallt: Sgwrs gan Emyr Currie Jones, yng Nghlwb Rygbi'r Eglwys Newydd, Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, am 8.00 p.m.
**Sadwrn, 12 Rhagfyr**
Clwb Ifor Bach: Dafydd Iwan a'r Band. Manylion pellach: 01222-232199.
**Llun 14 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch: Gwasanaeth carolau yn Eglwys San Pedr, Dinas Powys, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 15 Rhagfyr**
Cymrodorion y Barri: 'Y plygain a'i garolau' gan D. Roy Saer, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.
**Mawrth, 15 Rhagfyr**
Gwasanaeth Naw Llith a Charol Ysgol Gyfun Glantaf yng Nhapel y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30 p.m.
**Sadwrn, 19 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen y Garth: Perfformiad Cerddorol Nadoligaidd Côr Poliffonig Caerdydd yn Neuadd Dewi Sant. Os am docynnau, cysylltwch â Gwyneth Jones (ffôn: 01222-891947).
**Mercher, 6 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Euros Rhys Evans yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Mercher, 6 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: Dathlu'r Hen Galan gydag aelodau Cwmni Dawns Werin Caerdydd, yn festri Eglwys y Methodistiaid, Radur, am 7.30 p.m.
**Gwener, 8 Ionawr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Noson yng nghwmni 'Jac a Wil' (Gwion Lewis a Bill Davidson), yn neuadd Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.
**Gwener, 8 Ionawr**
Cymry'r Wenallt: Cinio Blynyddol, yng Nghlwb Rygbi'r Eglwys Newydd, Heol Felindra, am 8 p.m.
**Llun, 11 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Hen Ddoliau' gan Beryl Williams, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Llun, 11 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch: Ceilys yng Nglanfa Iwerydd, Bae Caerdydd, am 7.30 p.m.
**Mercher, 13 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen y Garth: Dathlu'r Hen Galan yn nhafarn y Kings, Pen-tyrch, am 8p.m.
**Iau, 14 Ionawr**
Cylch Cinio Merched Caerdydd: Gwesty'r Phoenix, Llanisien am 7.00 p.m. erbyn 7.30 p.m. Sgwrs gan yr Athro Howard Evans: 'Dylanwadau o'r Mynydd Du i'r Mynydd Bychan'.
**Gwener, 15 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Crwydro'n Ysbrydoli' gan Rhiain Phillips yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.
**Llun, 18 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson yng nghwmni Dudley Newbery yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**Llun, 18 Ionawr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Troi'r Marw'n Fyw'. Darlith gan yr Athro Glyn O. Phillips yn festri Eglwys y Crwys am 7.30 p.m.
**Mawrth, 19 Ionawr**
Cymrodorion y Barri: Darlith ar Gwilym R. Jones, Dinbych gan W. I. Cynwil Williams, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.
**Mercher, 20 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan W. J. Jones yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Gwener, 29 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: Noson Santes Dwynwen yng Nghlwb Golff Radur am 7.30 p.m.
**Llun, 1 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Hen Ddoliau Pincas'. Sgwrs gan Beryl Williams yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**Llun, 1 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch: Cwis dan ofal Peter ac Eleanor Elias Jones yn neuadd Eglwys San Pedr, Dinas Powys, am 7.30 p.m.
**Mercher, 3 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Rhiannon Rees yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Gwener, 5 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: Sgwrs ar Mahatma Gandhi gan Glyn Richards, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.15 p.m.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr. E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

## Cylch Cinio y Barri

Daeth aelodau'r Cylch ynghyd am y tro cyntaf ddiwedd Medi gyda Chris Rees yn ŵr gwadd. Fe'i cyflwynwyd gan y Llywydd, Douglas James. Cafwyd anerchiad pwrpasol a chynhwysfawr ganddo, yn olrhain blynyddoedd cynnar ei fachgendod yn Abertawe yn y cyfnod cyn yr ail ryfel byd.

## Cyfarfod Cymry'r Wenallt

Bu cyfarfod cynta'r tymor Cymry'r Wenallt yng Nghlwb Rygbi'r Eglwys Newydd ddechrau mis Hydref. Siaradodd Gwilym Roberts ar 'Phillips Brazil'. Am ragor o fanylion am y gymdeithas cysylltwch â John M. Rees ar 482922. Y cadeirydd am y tymor yw Haydn Jones, Rhiwbina.

## Der Stammitisch

I'r rhai ohonoch nad ydych yn gyfarwydd â'r Almaeneg, dyna "Siop Siarad" yn yr iaith honno, ac mae nifer yn byw yng Nghaerdydd sy'n medru'r iaith ac a garai gael cyfle i ymarfer ychydig arni. Os carech wneud hynny ewch i Dempseys, Heol y Castell, gyferbyn â Chastell Caerdydd ar unrhyw nos Fercher am naw o'r gloch. Gallwch gael gwybodaeth bellach gan Barry Tobin ar 343251.

## Eisteddfod Môn 2000

Cynhelir Eisteddfod Môn 2000 yn Llanfair Pwll. Os bydd unrhyw rai am noddi cystadleuaeth arbennig yn yr eisteddfod honno, dylent gysyllu rhag blaen â Mr Alwyn Roberts, 26 Wern, Llanfair Pwll, Ynys Môn (ffôn: 01248-714622).

## Sbardun Cymru yn sbarduno ymlaen!

Menter newydd a phwysig yw Sbardun Cymru. Ei amcan yw denu pobl ifainc i yrfa ddiddorol, sef croeso, hamdden a thwristiaeth - gyrfa, mewn ffordd, i werthu Cymru. Y cadeirydd yw Prys Edwards a'r cyfarwyddwr rhanbarthol yw Gareth Edwards a oedd cyn mynd i'w swydd newydd yn bennaeth Adran Ymarfer Corff yn Ysgol Glan Hafren. Mae ei ferch, Ffion yn Ysgol Glantaf a Geraint yn Ysgol y Wern.

Mae cael Sbardun Cymru'n bwysig i Gymru, o gofio mai twristiaeth yw un o'n diwydiannau pwysicaf. Os carech chi gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae'n ei wneud a sut y gall eich helpu, cysylltwch â Gareth Edwards yng Nghanolfan Cymru ar (01222) 484899.


## Croeso i Ysgolhaig Ifanc

Ddechrau'r flwyddyn academaidd, ymunodd aelod newydd â staff Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Brodor o Dywyn, Meirionnydd, yw Dylan Foster Evans, a bu'n astudio yng Ngholeg Penfro, Caergrawnt, lle y graddiodd mewn Eingl-Sacsoneg, Nors a Chelteg. Am y tair blynedd diwethaf bu'n gweithio yn y Ganolfan Uwchefrydiau Cymraeg a Cheltaidd yn Aberystwyth. Llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol yw prif faes ei ymchwil, yn enwedig gwaith cywyddwyr y bymthegfed ganrif, a chaiff ei gydnabod yn un o'r ysgolheigion ifanc disgleiriaf yn y maes. Mae wedi ymgartrefu ar Heol y Brenin yn Nhreganna.

## Llongyfarchion

- i Deian Llŷr, gynt o Landaf, mab Esther ac Alwyn Humphreys, ar ei briodas â Helen Angharad, merch Meril a Vivian Davies, Ponthenri. Byddant yn cartrefu yn Llundain lle mae'r ddau'n gweithio ar hyn o bryd.
- i Philip Laugharne ac Elaine Clee a briodwyd yn ddiweddar yn yr Eglwys Fethodistaidd yn Llandaf.
- i David Wyn-Jones, Llys-faen ar gyhoeddi llyfr pwysig ar Beethoven, sef *Life and Music of Beethoven*. Fe'i cyhoeddir gan Wasg Prifysgol Caergrawnt. Mae David ar staff Adran Gerdd Prifysgol Caerdydd.
- i Eve a Meurig Evans, 20 Palace Road, Llandaf ar enedigaeth eu mab Aeron Ceredig, brawd bach i Betsan, Elian ac Awen. Croeso mawr i ti, Aeron bach.
- i Rheon Tomos, Trysorydd y *Dinesydd*, ar gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Gwaith y Sector Cyhoeddus yng nghwmni cyfrifyddion Deloitte & Touche.
- i Dr W. Emrys Evans ar gael ei benodi'n Drysorydd Prifysgol Cymru.
- i Carol Davies a Dafydd Jones a briodwyd yn ddiweddar yn sir Benfro. Byddant yn ymgartrefu yn Llandaf.

## Pinter yn Gymraeg




Ar ddiwedd y mis bydd gan ddarllenwyr *Y Dinesydd* gyfle eto i weld *Y Gweinydd Mud*, sef y cynhyrchiad cyntaf yn yr iaith Gymraeg o ddrama enwog Harold Pinter, *The Dumb Waiter*.

Llwyfanwyd y ddrama am y tro cyntaf gan Cwmni Oni Bai yn Theatr y Maes yn Eisteddfod Bro Ogwr eleni ac fe gaiff ei pherfformio eto yn Theatr y Crwys am 8 o'r gloch ar nosweithiau **Sul, 29 Tachwedd, Llun, 30 Tachwedd a Mawrth, 1 Rhagfyr**.

Ffurfiwyd Cwmni Oni Bai gan Geraint Wyn a Frank Lincoln. Bu'r ddau yn cydweithio'n agos iawn â'i gilydd ar hyd y blynyddoedd, fel uwch-reolwyr yn BBC Cymru, a chyn hynny fel actorion mewn amryw o ddramâu teledu yn y 70au.

Cyfieithwyd y ddrama i'r Gymraeg gan Geraint Wyn; fe fydd yntau yn chwarae rhan Ben a Frank yn chwarae rhan Gus.

Mae'r ddrama hon gan Pinter yn un o ddramau arloesol mawr y ganrif, felly achubwch ar y cyfle prin hwn i weld y cynhyrchiad Cymraeg ohoni.

Cost y tocynnau yw £4. Archebwch trwy ffonio 01222 890501, 01222 555738, neu trwy Gwmni Theatr Crwys 01222 627903.

## Cydymdeimlwn

- â Haydn ac Angharad Hughes, Y Barri, ar golli eu baban Ifan Deiniol yn Ysbyty Llandochau ddiwedd Medi.
- â theulu T. Arfon Williams, Caeathro a fu farw ganol mis Hydref. Bu Arfon a'i deulu yn byw yn Heol Don am flynyddoedd pan oedd ef yn Swyddog Deintyddol yn y Swyddfa Gymreig. Cofir amdano'n bennaf, fodd bynnag, am ei englynion unigryw ac ardderchog. Bu am gyfnod yn gyfrifol am golofn farddol yn *Y Dinesydd*.
- â theulu Eric Evans a fu farw yn Ysbyty Felindre, Yr Eglwys Newydd ddiwedd Medi. Bu'n bennaeth y Ganolfan Iaith yn Nhrefforest am flynyddoedd ac yna'n ddarlithydd yn y Gyfadran Addysg ym Mhrifysgol Caerdydd. Bu gwasanaeth coffa iddo yng nghapel Sardis, Pontypridd ym mis Hydref.
- â theulu Elinor Margaret Thomas, Llandaf a fu farw yn Ysbyty Felindre ym mis Hydref ar ôl cystudd hir. Bu gwasanaeth angladdol iddi yng nghapel Gwaelod-y-garth.
- â Paul Morgan, Llanedeyrn, a'i deulu yn y brofedigaeth o golli ei fam yn ddiweddar.

## Cynllun Iaith i'r Fro

Lansiwyd Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Bro Morgannwg yn swyddogol ychydig yn ôl mewn cyfarfod lle y cafwyd eitemau ar y thema 'Iaith am Oes' gan ddisgyblion ysgolion cynradd Cymraeg yr ardal – Ysgolion Sant Baruc a Sant Curig (Y Barri), Ysgol Pen-y-garth (Penarth) ac Ysgol Iolo Morganwg (Y Bont-faen). Datblygwyd y cynllun dros gyfnod o 18 mis gan Swyddog Iaith Gymraeg y Cyngor, Siân Parry Jones, ac is-bwyllgor arbennig. Cyflwynir y Cynllun mewn camau dros y ddwy flynedd nesaf, a'r nod yw darparu gwasanaeth dwyieithog o safon ar gyfer trigolion y Fro. Dangosodd Cyfrifiad 1991 fod oddeutu 8,000 o bobl yn y Fro yn siarad Cymraeg. Mae agos i hanner y siaradwyr Cymraeg yno rhwng 3 a 15 oed.



Disgyblion Ysgol Sant Curig, Y Barri - Daniel Metcalf a Gwenno Lois o Wenfô, Elen Ifan o Rhws gyda Dylan Roberts, Swyddog Datblygu (Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol) Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyng. John Baty, Cadeirydd Cyngor Bro Morgannwg a'r Cyng. Maurice Nugent, Cadeirydd Pwyllgor Adnoddau Dynol y Fro.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Ffarwelio â'r Parchedig Ieuan Davies a Mrs Eunice Davies o'r ofalaeth ym Minny Street, Caerdydd

Er y tristwch o orfod dweud ffarwel wrth y Parchg Ieuan a Mrs Eunice Davies, bu cyfarfodydd y Sul, 4 Hydref a nos Fawrth, 6 Hydref, yn ysbrydoliaeth i lawer ohonom.

Fore Sul, cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant; mor braf oedd gweld cynifer o deuluoedd yr eglwys yn llenwi llawr y capel gan orfodi rhai i'r llofft! Roedd Arolygwyr yr Ysgol Sul, Angela Poole ac Ann Weeks, ynghyd â'r athrawon wedi sicrhau fod y plant yn cyflwyno nifer o eitemau ar y thema "Diolch". Yna bu'r Gweinidog yn eu hannerch mewn modd cwbl arbennig a nodweddiadol o'r hyn rydym wedi ei gael dros y naw mlynedd ddiwethaf. Cyflwynodd y plant ieuengaf lysiau a ffrwythau i gynorthwyo gwaith Byddin yr Iachawdwriaeth gyda'r digartref tra bu'r plant hŷn yn cyflwyno rhoddion ariannol er budd hospis George Thomas. A ninnau fel eglwys yn dod i ddiwedd un cyfnod yn ein hanes, mor gwbl addas oedd fod mab Nia a Rhys Evans, Ifor Wyn, yn cael ei fedyddio - arwydd sicr o barhad yr eglwys.

Nos Sul, a ninnau'n cael y fraint o wrando'r Parchg Ieuan Davies yn pregethu am y tro olaf (dros dro!) o bulpud Minny Street, cafwyd eitem gan barti o ferched o dan arweinyddiaeth Meudwen Davies. Bu Hywel ap Robert, Peredur Powell a Siân Lodwick, gyda'u cysylltiadau â chyn-weinidogion yr eglwys, yn darllen a gweddïo fel arweiniad at Fwrdd y Cymun, pryd y bu'r Parchg Ieuan Davies ei hun yn rhannu'r bara a'r gwin ymysg aelodau'r gynulleidfa niferus.

Parhau mewn diolchgarwch a wnaethom yn y Cyfarfod Ymadawol ar y nos Fawrth. Y cyn-ysgrifennydd Iwan Jones oedd yn llywyddu ac Eilonwy Jones yn cynorthwyo wrth yr organ. Yng nghwmni nifer o gyfeillion o eglwysi'r ddinas a'r cyffiniau, cawsom gyfle i ddatgan yn gyhoeddus ein gwerthfawrogiad mwyaf diffuant o'r naw mlynedd o arweinyddiaeth ddiflino a sicr a gafwyd gan y Parchg Ieuan a Mrs Eunice Davies. Darllenwyd rhan o Efengyl Ioan gan Andrew Bartholomew ac fe'n harweiniwyd mewn gweddi gan Havard Gregory - ef hefyd a gyflwynodd cyfarchion ar ran yr eglwys yn y Tranovato, Madagascar (eglwys sydd wedi'i hefeillio â Minny Street). Cafwyd eitemau gan blant yr Ysgol Sul gyda Judith James wrth y piano, a datganiad cerddorol gan Elisabeth Pugh Welply i gyfeiliant Lois Davies. Talwyd teyrnged i'r arweinyddiaeth a gafwyd dros y naw mlynedd gan y Parchg Cynwil Williams ar ran eglwysi Cymraeg y ddinas, ac Eglwys y Crwys yn arbennig ac yna gan gynrychiolwyr o wahanol adrannau Eglwys Minny Street: Alun Treharne (yr Ysgol Sul); Iona Lotwick (y bobl ifainc); Glyn E. Jones (y Gymdeithas); a theyrnged ar ran yr holl aelodau gan yr Ysgrifennydd, Bethan Jones. Cyflwynwyd tysteb a rhoddion i Ieuan ac Eunice Davies cyn i'r Parchg Ieuan Davies, ar ran y ddau ohonynt, ymateb. Hyfrydwch o'r mwyaf, ar ddiwedd y noson, oedd derbyn brithlen o waith Eunice Davies wedi ei seilio ar Weddi'r Arglwydd yn rhodd i'r eglwys oddi wrthynt. Yn dilyn y cyfarfod bu cyfle i bawb fwynhau cymdeithas dros luniaeth ysgafn yn y festri wedi ei baratoi gan nifer o chwiorydd dan arweinyddiaeth Mererid Williams.

Yn naturiol, roedd yna elfen o dristwch drwy'r cyfarfodydd yma ond ar yr un pryd roeddem yn mawrygu'r fraint o fod wedi cael naw mlynedd yng nghwmni, a than arweiniad, y ddau arbennig yma. Gyda'r merched, Nia a Lois yn parhau yng Nghaerdydd, mae'n siŵr y cawn eu cwmni o bryd i'w gilydd yn y dyfodol! Yn sicr, bydd yna groeso iddynt ar unrhyw adeg ym Minny Street.

Dymunwn bob bendith i'r Parchg Ieuan a Mrs Eunice Davies yn eu cartref newydd yn Waunarlwydd ac yn eu gofalaeth newydd yn Nhreforys.

> Ni wn i am un cyfarchiad gwell
> Nag a ddysgais gan feibion y Dwyrain pell;
>
> A'u dymuniad hwy yw 'nymuniad i -
> Tangnefedd Duw a fo gyda *chwi*.

**Bethan Jones**

## Eglwys y Santes Fair, Yr Eglwys Newydd

Cynhelir oedfa Gymraeg ar y trydydd bore Sadwrn o'r mis am 9 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

## Diolchgarwch yn Ebeneser

Cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch yr Ysgol Sul ar y bore Sul cyntaf o fis Hydref. Unwaith eto roedd cynulleidfa gref yn yr addoldy yn mynegi ei diolch i Dduw am ei gynhaliaeth ac am ei roddion hael. Daeth y plant â thuniau bwyd i'r gwasanaeth ynghyd ag arian i'w roi yn y casgliad diolchgarwch ac fe drosglwyddwyd yr holl roddion i loches y digartref ac i Dŷ Hafan.

## Noson Cymdeithas y Beibl

Cynhaliodd Cymdeithas y Beibl wasanaeth a ffair yn Eglwys Dewi Sant ddechrau mis Hydref. Y llywydd oedd Mrs Rosalyn Williams, Y Mynydd Bychan a phregethwyd gan y Parchedig Aled Edwards, ficer Eglwys Dewi Sant. Roedd y trefniadau yng ngofal Margaret Jones a Sali Davies, y ddwy o Riwbina. Gwnaeth y noson £877 o elw.

## Bedyddio yn y Crwys

Yn Eglwys y Crwys yn ddiweddar, bedyddiwyd Rachel Elizabeth, merch Wyn a Kate Innes, Creigiau, a chwaer fach Tomos a Hannah. Hefyd, bedyddiwyd Owain Arfon, mab Geraint a Bethan Jones, Llandaf, a brawd bach Megan. Pob dymuniad da i'r ddau deulu.

## Trychineb Nicaragua

Gwelodd pawb ohonom, mae'n siŵr, y lluniau o'r trychineb erchyll yn Nicaragua pan drawyd y wlad gan Gorwynt Mitch yn nechrau Tachwedd. Mae Ymgyrch Cefnogi Nicaragua yng Nghymru wedi bod yn darparu cymorth ymarferol i drigolion y wlad ers dros 12 mlynedd, ac y maent yn awr yn casglu arian i'w sianelu trwy fudiadau yn Nicaragua a'r Groes Goch Ryngwladol i geisio lleddfu rywfaint ar effeithiau'r trychineb. Gellir anfon unrhyw gyfraniadau at NSC Cymru, Tŷ Capel Calfaria, Heol y Bedyddwyr, Pen-y-groes, Gwynedd LL54 6NU (ffôn: 01286-882359; e-bost: benica@gn.apc.org). Dylid gwneud sieciau yn daladwy i 'NSC Cymru'.

## Croes Geltaidd i Gofio


Mae Cwmni Mossfords wedi cyfrannu croes Geltaidd wedi ei gwneud o garreg galch Wyddelig i'w chodi ar safle ym mynwent Cathays i gofio am yr holl Wyddelod a fu farw adeg newyn mawr 1845-1848. Amcangyfrifir i dros filiwn o bobl farw yn ystod y cyfnod hwnnw a bod dwy filiwn wedi ymfudo i wahanol rannau o'r byd, gan gynnwys Cymru. Yng Nghyfrifiad 1860 cofnodwyd bod 73 o ardaloedd Gwyddelig yng nghanol Caerdydd. Sefydlwyd Fforwm Newyn Cymru yn 1995 i gofnodi 150 o fynyddoedd er y newyn Gwyddelig. Y gobaith yw cynnal seremoni i ddadorchuddio'r groes pan ddaw'r gwanwyn.

# YSGOL GLANTAF

## Pen-blwydd Hapus Glantaf

Nos Sadwrn, 7 Tachwedd, cynhaliwyd cyngerdd dathlu ugeinfed pen-blwydd Glantaf yn Neuadd Dewi Sant. Perfformiwyd *Elias* Mendelssohn gan gôr unedig yn cynnwys digyblion, rhieni ac athrawon yr ysgol, Côr Philharmonig Casnewydd a Chôr Philharmonig Caerdydd. Yr unawdwyr oedd Miriam Bowen, soprano, Sian Meinir, contralto, Wayne Evans, tenor, ac Anthony Stuart Lloyd, un o ddisgyblion cyntaf yr ysgol yn 1978, oedd yn canu rhan Elias. Jeff Lloyd oedd blaenwr Cerddorfa Simffonig Glantaf a Richard Elfyn Jones oedd wrth yr organ. Roedd y cyfan o dan arweinyddiaeth Alun Guy a ymddeolodd yr haf yma o'i swydd fel pennaeth adran gerdd yr ysgol. Yn sicr roedd y perfformiad yn ffordd wych o ddathlu'r garreg filltir bwysig hon yn hanes yr ysgol.





## Profiad Gwaith yn yr Almaen

Eleni eto bu'r daith flynyddol i'r Almaen yn llwyddiant mawr. Aeth 30 disgybl o Lantaf i Bergneustadt, tref fach 30 km i'r dwyrain o Köln, ar daith gyfnewid. Ond, y tro hwn cynhaliwyd arbrawf profiad gwaith gyda disgyblion y chweched dosbarth. Yn lle mynd ar y tripiau arferol yn ystod y dydd, bu dwy ferch yn gweithio mewn ysgolion cynradd - profiad diddorol a gwahanol. Cawsant gyfle i addysgu dosbarthiadau a rhoi cymorth i'r plant. Gobeithia'r athrawon barhau â'r trefniant hwn yn y blynyddoedd i ddod.

**Sara Roberts**

Sara Roberts o flaen dosbarth yn yr Almaen

### Cennin Pedr Marie Curie

'Does dim yn fwy sicr o godi'r galon ar ôl misoedd hir y gaeaf na gweld carped o gennin Pedr yn y gwanwyn. Drwy garedigrwydd elusen Marie Curie a Chanolfan Garddio Pughs yn Radyr, dyna a welir yng Nglantaf y flwyddyn ysgol nesaf. Bu plant yr ysgol isaf wrthi'n brysur yn ystod y flwyddyn ysgol ddiwethaf yn cynnal amrywiol weithgareddau megis golchi ceir a seiclathon er mwyn codi arian i elusen Marie Curie. Am bob punt a godwyd rhoddodd yr elusen un bylb cennin Pedr. Llwyddodd y plant i godi dros £2,700 - felly roedd tipyn o blannu i'w wneud! Cynigiodd Canolfan Garddio Pughs gynorthwyo gyda'r plannu a mawr yw diolch yr ysgol iddynt. Rhannwyd y bylbiau rhwng Glantaf a Phlasmawr ac edrychwn ymlaen i weld ffrwyth y llafur yn y gwanwyn.



Plannu cennin Pedr yn Ysgol Glantaf. *Llun: Robin Griffith*

## Pwy sy'n dweud y gwir?



Syndod i lawer o drigolion y ddinas oedd gweld clamp o boster yn Gymraeg a godwyd gan y grŵp poblogaidd y Manic Street Preachers. Achoswyd tipyn o feirniadaeth gan ansawdd y Gymraeg a gyhoeddai: "Dyma'n ngwirionedd - dwêd un ti". Wrth feirniadu'r Gymraeg mae nifer wedi cynnig cywiriadau sydd hefyd yn ansafonol. Yr hyn a ddymunent ei ddweud (gobeithio!) oedd, "Dyma 'ngwirionedd. Dwed dy un di."

Mae'r grŵp yma'n hael iawn at achosion da. Rhoddodd rodd o £4,000 i Apêl Tŷ Hafan sydd ar fin cwblhau adeiladu hospis cenedlaethol i blant yn Sili yn y Fro.

## Tesco newydd

Bydd y rhan fwyaf ohonom wedi gweld y Tesco newydd yn Western Avenue a agorodd yn swyddogol ganol Medi. Fe'i hagorwyd gan Gareth Edwards, cyn-gapten tîm rygbi Cymru. Dyma'r Tesco mwyaf y tu allan i Lundain ac mae 750 o bobl yn gweithio ynddi. Gan ddilyn traddodiad archfarchnadoedd mae ynddi lu o arwyddion Cymraeg, un neu ddau ohonyn nhw'n "ddiddorol" a dweud y lleiaf. Byddai'n dda cael gwybod sut y mae mor amhosibl cael Cymraeg cywir mewn archfarchnad. Hwyrach y carai rhywun anfon rhestr atom o'r holl gamgymeriadau yn archfarchnadoedd y ddinas.

## Arbenigwr ar hanes y Mynydd Bychan

Gareth Williams, Heol Crystalwood, Y Mynydd Bychan, oedd y siaradwr yng nghyfarfod Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina ddechrau mis Hydref. Cafwyd sgwrs hynod ddiddorol ganddo ar ardal y Mynydd Bychan (*Heath*). Mae wrthi ar hyn o bryd yn paratoi llyfryn ar hanes y Mynydd Bychan ac mae ganddo ddiddordeb mewn lluniau o bob math, yn enwedig o'r hen goleg. Os oes lluniau gennych chi, byddai'n falch clywed oddi wrthych. Mae ar y ffôn ar 751091.

## Cwnsler i'r Cynulliad

Winston Roddick, brodor o Gaernarfon ond sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd fydd Cwnsler Cyffredinol cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol. Bu'n ddirprwy-bennaeth Cwmni Ronald Thwaites QC yn Llundain cyn derbyn ei swydd newydd. Bu'n aelod o Fwrdd yr Iaith am bum mlynedd ac yn aelod o'r Comisiwn Teledu Annibynnol.

## Arddangosfeydd nodedig


Yn ddiweddar bu arddangosfa o waith yr arlunydd Ifor Davies, Penarth yn Oriel Tŷ Turner, Penarth. Fe'i hysbrydolwyd gan Chwedlau'r Mabinogion a theitl yr arddangosfa oedd "Chwedlau'r Llyfr Gwyn". Bu'r arddangosfa yn Llundain cyn dod i Benarth. Brodor o Dreharris yw Ifor Davies ond fe'i magwyd ym Mhenarth ac fe'i haddysgwyd yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn yn y dref honno.

Yn ddiweddar hefyd bu arddangosfa ffotograffiaeth o waith Pat a Charles Aithie, Stryd Cyfaelog, yn Oriel Gelfyddyd Casnewydd. Roedd yr arddangosfa yma'n deir-ieithog, Arabeg, Cymraeg a Saesneg ac yn dathlu'r berthynas glòs a fu rhwng pobl Yemen a phorthladdoedd fel Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe pan oedd y farchnad lo yn ei hanterth. Lluniau o wlad Yemen oedd yn yr arddangosfa hon a agorwyd gan yr Athro Dai Smith, pennaeth rhaglenni Saesneg y BBC. Mae Pat a Charles yn enwog am eu cardiau post o olygfeydd yn ne Cymru. Brodor o'r Alban yw Charles, ond mae Pat yn dod o'r Mynydd Bychan ac aeth i Ysgol Tonyrywen. Mae'r Gymraeg yn agos iawn at eu calon.

## Hybu darllen


Cafodd Rhiannon Lloyd, Parc y Rhath, ei secondio am flwyddyn o fod yn Arolygydd Ysgolion i fod yn gydlynydd y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru, sef arwain ymgyrch i hybu darllen, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifainc. Mae hyn yn rhan o strategaeth y llywodraeth hon i godi safonau ym myd addysg. Cafodd Rhiannon ei magu yng Nghastell-nedd ac enillodd radd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Bangor. Bu'n athrawes am gyfnod cyn mynd yn ymgynghorydd iaith yng Ngwynedd. Daeth i Gaerdydd ddeng mlynedd yn ôl pan benodwyd hi'n Arolygydd Ysgolion. Pob dymuniad da iddi.

## Amser Stori yn y Llyfrgell



Cynhelir 'Amser Stori' yn y Gymraeg i blant dan 5 oed yn Llyfrgell Rhiwbina am 2.15 o'r gloch ar ddyddiau Mawrth ac yn Llyfrgell yr Eglwys Newydd am 2.15 p.m. ar ddyddiau Mercher. Am fanylion pellach cysyllter â'r llyfrgelloedd ar 01222-693276 (Rhiwbina) ac 01222-628951 (Yr Eglwys Newydd).

## Grantiau'r Loteri



Dyfarnodd Cyngor Celfyddydau Cymru grantiau Loteri o bron £3 miliwn yn ddiweddar. Yn eu plith, dyfarnwyd grant o £70,570 i Wasg Prifysgol Cymru ar gyfer prosiect i gynhyrchu cyfres o 20 llyfr Cymraeg ynglŷn ag ysgrifennu creadigol a delweddau artistiaid, £10,106 i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ar gyfer prosiect theatr ar y thema 'Syrcas', £4,500 i Ysgol Gynradd Gymraeg Pwll Coch am breswylfa amlddisgyblaethol yn y celfyddydau, £4,905 i Gwmni Theatrig ar gyfer perfformiadau o gyfieithiad Cymraeg o ddrama gan David Mamet yng Nghastell Hensol ym mis Awst eleni, a £10,000 i Gymdeithas Ddrama Cymru ar gyfer offer cyfrifiadurol yn ei swyddfeydd yn yr Hen Lyfrgell yn y Sblot.

## A fuoch chi 'rioed ym Mryntaf?

Mae gennym enwau heb gyfeiriadau ac rydym yn dal i geisio dod o hyd i gyn-ddisgyblion (ac athrawon) colledig.

Os gwyddoch am hynt rhai o'r canlynol, fe fyddem yn ddiolchgar iawn am unrhyw wybodaeth amdanynt.

Cysylltwch ag Iwan Guy, 20 Lake Hill Drive, Y Bontfaen, neu Siân Morgan Thomas, 105 Pantmawr Road, Rhiwbina, Caerdydd (ffôn 01222 693909) os ydych yn adnabod: Siân Fell, Gwendoline Beckett, Olwen Rees, Rhuddian Davies, Howard Clements, Gwyn Williams, John Friend.


## Marw Eirian Ricketts

Ym mis Awst, bu farw yn 57 oed Gymraes a fu'n arloesi ym maes ffisiotherapi. Ganed Eirian Owenna Seaborn Ricketts yng Nghaernarfon i deulu o Ryddfrydwyr amlwg. Lloyd-George a fu'n gyfrifol am awgrymu wrth ei thad, Philip Davies, y dylid ei galw'n 'Eirian' – ei hoff enw bedydd ef, meddai – ac ewythr iddi, Dewi Seaborn Davies, a olynodd Lloyd-George yn aelod seneddol. Dechreuodd Eirian Ricketts ar ei gyrfa yn yr Infirmari yng Nghaerdydd, lle y derbyniodd ei hyfforddiant fel ffisiotherapydd, ac yr oedd yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol Ymddiriedolaeth Iechyd Cymunedol Caerdydd pan fu raid iddi ymddeol ar sail iechyd yn 1994. Bu ar flaen y gad yn y gwaith o ddefnyddio ffisiotherapi i drin pobl â salwch meddwl.

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

dan ofal B.D. Harries

## Ysgol Mynydd Bychan



Yn ystod tymor haf 1998 daeth tro Ysgol Mynydd Bychan i gael ei harolygu. Gan mai ond pum mlynedd yn ôl yr agorwyd yr ysgol, nid yw eto wedi cyrraedd ei llawn dwf, ond dywed adroddiad yr arolygwyr bod y 131 o ddisgyblion a oedd ynddi ar y pryd yn dysgu mewn "cymuned hapus a gofalgar", a bod yr ysgol yn "hybu gwerthoedd moesol. Rhoddir pwyslais cryf ar feithrin parch at bobl a diwylliannau eraill." Ac nid siarad am y cyfryw werthoedd heb weithredu a wna'r ysgol: "Mae gwerthoedd cadarn yn treiddio trwy waith a bywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion hynaf yn dangos gofal a chonsýrn am yr ieuengaf a byddant yn cymryd eu tro i'w helpu yn yr ystafell ddosbarth."

Dechreuodd pennaeth presennol yr ysgol, Mrs Anne Williams, yn ei swydd ym Medi 1998, ac yn ystod y flwyddyn academaidd rhoes arweiniad "cadarn a meddylgar", a "chyflawnwyd llawer ... Mae'r staff yn gweithio'n dda fel tîm; mae'r ymgynghori a'r cyfathrebu'n dda."



"Yn yr ysgol drwyddi draw," medd yr arolygwyr, "nid yw'r safonau cyflawni fyth yn llai na boddhaol, ac mewn dwy ran o dair o'r gwaith y maent yn dda. Ceir ychydig o enghreifftiau o waith, neu o agweddau o waith, da iawn yn y ddau gyfnod allweddol."

Mae'r ysgol yn "darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwrdd â'r gofynion statudol yn effeithiol", ac yn llwyddo i feithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. "Mae'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau ieithyddol y disgyblion yn y Gymraeg yn treiddio trwy'r holl gwricwlwm, ac y mae'r sgiliau hynny'n datblygu'n dda drwy'r ysgol; erbyn Blwyddyn 4, y mae'r mwyafrif mawr o'r disgyblion yn hyderus ac yn rhugl yn eu defnydd o'r iaith. Mae'r safonau darllen Cymraeg yn dda yn y ddau gyfnod allweddol. Mae'r disgyblion yn ysgrifennu'n rhugl yn gymesur â'u hoedran a'u gallu: mae'r atalnodi a'r gramadeg o safon foddhaol ... Mae safonau rhifedd yn dda yn y ddau gyfnod allweddol ac yn dda iawn ymhlith disgyblion ieuengaf Cyfnod Allweddol 1."

Yn y dosbarthiadau hynny lle y mae'r "dysgu'n dda iawn, y mae'r disgyblion yn amlygu brwdfrydedd yn eu gwaith, ac elfen o foddhad neu ryfeddod ar brydiau. Mae eu hymatebion i'w hathrawon yn feddylgar ac yn estynedig, ac yn aml yn esgor ar gwestiynau heriol pellach."

Er bod yn yr ysgol "gyfrannedd o ddisgyblion o allu uwch na'r cyffredin", caiff y disgyblion sydd "ag Anghenion Addysg Arbennig gymorth effeithiol a gwnânt gynnydd da yn gyffredinol."

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaeth dda â'r rhieni, sy'n "derbyn adroddiadau ysgrifenedig yn flynyddol ar gynnydd y disgyblion ym mhob pwnc" a chyfle "bob tymor i drafod cynnydd eu plant gyda'r athrawes: gwerthfawrogir y cyfleoedd hyn gan y rhieni ac fe'u mynychir yn dda."

Datblygwyd cysylltiadau hefyd â'r gymuned y tu allan i'r ysgol - ymhell ac agos. Er nad oes "un disgybl hyd yma wedi trosglwyddo i'r ysgol gyfun cyfrwng-Cymraeg ... y mae cysylltiadau priodol yn bod yn barod. Bydd disgyblion o'r ysgol gyfun cyfrwng-Cymraeg yn ymweld ag Ysgol Mynydd Bychan ar brofiad gwaith. Yn ychwanegol, ffurfiwyd cysylltiad buddiol ag adran Gymraeg yr ysgol gyfun cyfrwng-Saesneg leol." Datblygwyd hefyd "gysylltiad diddorol ag ysgol gynradd arall yng nghefn gwlad Cymru. Bydd disgyblion o'r un oed yn gohebu â'i gilydd ac yn cymharu eu hardaloedd."

Bydd yr ysgol yn cynnal cyngherddau ac ambell ŵyl mewn eglwysi lleol, ac estynnir croeso i ymwelwyr o'r gymuned gyfrannu eu sgiliau a'u profiad i'r addysgu a'r dysgu. Bydd unigolion eraill yn rhoi cymorth gwerthfawr yn y dosbarthiadau.

### Croeso i athrawon newydd Ysgol Mynydd Bychan

- Penodwyd Miss Rhian Thomas yn athrawes yn Ysgol Mynydd Bychan. Mae'n hanu o Landaf a chafodd ei hyfforddiant cychwynnol yn Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Miss Thomas fydd athrawes dosbarth 5 yn yr ysgol.
- Penodwyd Miss Anne Willey i fod yn athrawes dosbarth derbyn Ysgol Mynydd Bychan. Mae Miss Willey yn hanu o Aberystwyth, a chafodd hithau hefyd ei hyfforddiant cychwynnol yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin.
- Bydd Miss Anna Price yn cyflenwi dros gyfnod mamolaeth un aelod o'r staff.

Dymunwn yn dda i'r tair.

## Ysgol y Wern



Ar 7 Hydref, cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr ysgol. Daeth Mrs Elenid Jones o Gymorth Cristnogol i siarad â'r plant. Dosbarthwyd amrywiaeth o nwyddau gan blant Blwyddyn 6 i henoed yr ardal.

Treuliodd Blwyddyn 6 wythnos ddiddorol iawn yn Llangrannog yn ddiweddar. Aethant ar wibdeithiau i Gastell Penfro ac i Ganolfan Celtica ym Machynlleth. Cawsant brofiadau eang ac wythnos fythgofiadwy.



Da yw gweld dau wyneb o'r Ysgol yn ein croesawu ar ddechrau'r rhaglen deledu *Dechrau Canu, Dechrau Canmol.* Llongyfarchiadau i Elin Roberts (Blwyddyn 6) a Garyn Pritchard (Blwyddyn 4).

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Pêl-droed



Os gall newid dirfawr ddigwydd ym myd gwleidyddiaeth o fewn wythnos, mae'r cyfryw yn wir ym myd pêl-droed, yn enwedig pêl-droed ryngwladol. Ar ôl i Gymru golli i'r Eidal yn Anfield, roedd y proffwydi'n darogan y buasai Bobi Gould, rheolwr Cymru, wedi ei ddiswyddo oni fuasai canlyniadau gwell yn erbyn Denmarc yn Copenhagen a Belarws gartre. Wel, fe gafwyd dwy fuddugoliaeth a swydd y rheolwr bellach yn weddol ddiogel, o leia tan y gêm nesa ym mis Mawrth. Ond cofier, mae tipyn i'w gyflawni eto os am gyrraedd rowndiau terfynol Cwpan Ewrop yn 2000.

Erys un ffaith amlwg - rhaid rhoi'r gore i chwarae gêmau "gartre" yn Anfield. Roedd yr awyrgylch yn erbyn Belarws ar Barc Ninian yn drydanol - ac yn sicr ag effaith i godi'r tîm (oedd heb Ryan Giggs a John Hartson) i'w buddugoliaeth. Mae sôn bellach gan Gymdeithas Pêl-droed Cymru mai ar dir Cymru y chwaraeir y gweddill o'r gêmau gartref ac onid yw'n hen bryd i, naill ai datblygu Parc Ninian neu'r Cae Ras newydd yn faes cenedlaethol i Gymru, neu adeiladu stadiwm newydd, yn hytrach na thalu'n sylweddol am y fraint o chwarae ar Stadiwm y Mileniwm pan gwblheir y cynllun. Wedi'r cyfan Undeb Rygbi Cymru fydd yn elwa pan ddylse unrhyw elw fynd tuag at ddatblygu pêl-droed yng Nghymru?

Y ddadl fawr - lle dylse maes o'r fath fod? Y gogledd yw barn nifer, ond onid rhesymol yw dweud y dylse'r lleoliad fod yn ne neu dde-ddwyrain Cymru? - wedi'r cyfan yn y cyffiniau yma mae mwyafrif y boblogaeth. Y gost - yn aruthrol mae'n sicr ac yn faen tramgwydd, ond mae grantiau ar gael o'r "Football Trust" neu o'r Loteri Genedlaethol, siŵr o fod. Onid yw'n werth ystyried cynllun o'r fath? Ac un ddadl arall - oni ddylse swyddfeydd Cymdeithas Pêl-droed Cymru fod o fewn un o'n meysydd pêl-droed ni yn hytrach nag yn Stryd Westgate, Caerdydd?

A sôn am Gaerdydd, mae'r gwelliant yn parhau yn y drydedd adran - colli ond unwaith o fewn naw gêm cyn colli i Gaergrawnt yn y Cynghrair. Y trueni yw nad oes gan y clwb yr arian i arwyddo chwaraewyr dawnus fel Matt Brazier y mae rheolwr craff fel Frank Burrows yn medru eu denu, ar fenthyg, i Barc Ninian. Ie, "bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd," canys ti a'i cei ar ôl llawer o ddyddiau.

## Pêl-rwyd



Gan amlaf, gweddol dawel yw'r cyfnod cyn y Nadolig i'r carafannau cenedlaethol, ond nid felly eleni. Bu'r tîm hŷn ym Mabolgampau'r Gymanwlad yn Kuala Lumpur fis Medi a bydd gan dîm Cymru Ifanc gêmau cyffrous yn niwedd Tachwedd a dechrau Rhagfyr - dwy gêm yn erbyn Lloegr 2000 (Crystal Palace a Birmingham) ac un yn erbyn tîm o dan 21ain De'r Affrig yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy (Rhagfyr 4ydd). Unwaith yn unig y cyfarfu Cymru Ifanc â De'r Affrig o dan 21ain a hynny yng Nghwpan Ieuenctid y Byd yng Nghanada ym 1996. De'r Affrig a orfu y tro hwnnw o 61-52, felly disgwylir gêm gyffrous eto'r tro hwn. Ni fydd hi'n hawdd o gwbl i'r Cymry gan mai newydd ddigwydd y mae'r profion ac un ymarfer yn unig sydd i baratoi ar gyfer y tair gêm, ond fe fyddant yn brofiad da a gwerthfawr. Dewiswyd tîm Cymru Ifanc o blith y chwaraewragedd yn y garfan o dan 19eg oed a'r garfan allddodol, a'r nod yw paratoi ar gyfer y Cwpan Ieuenctid Byd nesaf, sydd i'w gynnal yma yng Nghaerdydd yn y flwyddyn 2000 - mwy am hynny eto.

Gêmau rhyngwladol nesaf yng Nghaerdydd - Ionawr 30ain yn erbyn Lloegr (agored ac o dan 17eg oed) a Phencampwriaeth o dan 17eg oed Ewrob Mawrth 27-28.

**Angharad Dafydd-Styles**
Hyfforddwraig o dan 19eg a Chymru Ifanc

## Rygbi



Tristáu y mae hanes pêl-hirgron y wlad - yn rhygnu ymlaen o argyfwng i argyfwng. Yr unig beth a'n cododd ryw gymaint y tymor hwn hyd Nos Calan Gaeaf oedd cystadlaethau Ewrop, ac fe fydd dweud hyn yn ymddangos yn rhyfedd wrth ystyried y canlyniadau. Ond er gwaethaf hanes Glynebwy yn y Cwpan (ildio dros 300 o bwyntiau yn eu pum gornest a heb ennill yr un pwynt) cawsom weld buddugoliaeth Pontypridd gartref yn erbyn Colomiers a Llanelli dros Stade Francais ar Y Strade. Ni allai Llanelli gyrraedd rownd nesaf y Cwpan gan iddynt golli gartref yn eu gornest gyntaf i Leinster o bawb, ond disgwyliwyd i Bontypridd wneud hynny, er iddynt golli eu dwy ornest yn erbyn Treviso. Yr oedd angen iddynt ennill eu gornest olaf yn erbyn Glasgow gartref a rhagori ar gyfanswm y gwrthwynebwyr o dri phwynt o leiaf.

O'r pedwar clwb yng Nghystadleuaeth y Darian, Caerffili'n unig a ddisgleiriai Nos Calan Gaeaf pan gurwyd Connacht o 38-9. Y pryd hynny enillasent dair o'u pum gornest, ac fe allasent gyrraedd rownd yr wyth olaf.

Mawr obeithio y bydd cystadleuaeth Ewrop yn parhau hyd yn oed heb glybiau Lloegr.

Beth fydd i'w ddweud yn y rhifyn nesaf, tybed, wedi i Gymru chwarae De Affrig ac Ariannin?

---

### Mynd ar ras

Roedd Paul Gray, cyn-ddisgybl yn Ysgol Springwood, Llanedyrn, ac Ysgol Uwchradd Llanedyrn, yn un o'r pedwar rhedwr yn y ras gyfnewid 4 wrth 400 metr yn Chwaraeon y Gymanwlad yn Kuala Lumpur. Enillodd fedal efydd yn y ras honno.


### Sgorio gôl dyngedfennol

Diolch i gôl dyngedfennol gan Craig Bellamy a ddaw o ardal Trowbridge yng Nghaerdydd, enillodd tîm pêl-droed Cymru yn erbyn Denmarc o ddwy gôl i un ganol mis Hydref. Bu Craig yn chwarae dros ysgolion Caerdydd pan oedd yn ddeuddeg oed ac yn ymarfer ym Mharc Ninian bob wythnos. Erbyn hyn mae'n chwarae i glwb Dinas Norwich.

### Clwb pêl-droed yr Urdd

Ers pum mlynedd mae'r Urdd wedi bod yn trefnu clwb pêl-droed i blant ar gaeau Llandaf a phan ddechreuodd y tymor newydd yn hanes y clwb ym mis Medi ymunodd 160! Mae hyn yn record, yn ôl swyddfa'r Urdd.

## Mentro i Fyd Llyfrau Plant



Eleni gwelwyd y bardd adnabyddus, Iwan Llwyd, yn fentro i fyd llyfrau plant, wrth iddo addasu tri llyfr i blant. Teitlau'r llyfrau lliwgar hyn yw *Moch*, *'Dwi Eisiau Mynd!* a *Siwt Eira Tomos*, a byddant yn apelio yn arbennig at blant rhwng 4 a 7 oed. Gwaith un o storiwyr mwyaf Gogledd America, sef Robert Munsch, sy'n byw yn Ontario, Canada, yw'r llyfrau Saesneg gwreddiol

Gwasg newydd o Gaerdydd yw cyhoeddwyr y fersiynau Cymraeg, sef HOUDMONT, gwasg sydd wedi'i henwi ar ôl ei pherchennog, Richard Houdmont. Un o aelodau staff Gwasg Prifysgol Cymru yw Richard, ac y mae'r fenter hon yn waith 'amser hamdden' iddo.

Y stori y tu ôl i gyhoeddi'r llyfrau yw bod mab Richard, Tom, wedi derbyn copi o fersiwn Saesneg gwreiddiol *Siwt Eira Tomos – Thomas' Snowsuit* – yn anrheg gan ffrindiau o Ganada pan oedd yn fachgen bach. (Y mae Tom bellach yn un ar ddeg, a newydd adael Ysgol y Wern am Ysgol Glantaf.) Apeliodd y stori yn fawr at Tom a'i dad, a phrynwyd sawl llyfr arall o Ganada gan yr un awdur. Ac yn wir, yr oedd Richard yn hoffi'r llyfrau gymaint fel y prynodd yr hawliau i'w cyhoeddi yn Gymraeg.




Llun o'r Llyfr *Siwt Eira Tomos*

Dosberthir y llyfrau gan Wasg Taf, Bodedern, Caergybi. Fel yr awgryma'r enw, gwasg a sefydlwyd yng Nghaerdydd yn wreiddiol yw Gwasg Taf, a Richard Houdmont yn un o'r sylfaenwyr, er nad yw'n un o'r cyfarwyddwyr erbyn hyn. Cyfeiriad Gwasg Houdmont yw 14 Lôn-y-dail, Rhiwbina, Caerdydd CF4 6DZ (Ffôn: 01222-692371).

## Cystadleuaeth Ysgrifennu Drama



Mae Cymdeithas Ddrama Cymru wedi trefnu cystadleuaeth cyfansoddi dramâu byrion eto eleni. Thema'r gystadleuaeth eleni yw 'Deffroad', a gwobrwyir yn ôl y categorïau canlynol: Y Ddrama Orau i Gast o Ferched, Y Ddrama Orau yn y Gymraeg, Y Ddrama Orau i Gast o Blant/Ieuenctid, Yr Awdur Gorau dan 25 Oed, Y Ddrama Orau i Oedolion, Drama Orau'r Holl Gystadleuaeth. Ni ddylai hyd y ddrama fod yn hwy na 45 munud a gellir ei llunio yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw 31 Ionawr 1999. Gellir derbyn manylion pellach trwy gysylltu â George Owen ar 01222-763777.

## Y Palmant Aur

Y mae'r gyfres boblogaidd *Y Palmant Aur* yn dychwelyd i S4C nos Sul, 22 Tachwedd am 9 o'r gloch. Erbyn hyn y mae'n 1941 ac yn adeg rhyfel. Cyd-awduron y drydedd gyfres hon yw Manon Rhys a T. James Jones o Bontcanna. Cyhoeddir nofel gan Manon Rhys i gyd-fynd â'r gyfres, nofel sy'n dechrau yn ôl yn yr 1920au. Manon Rhys yw tiwtor y cyrsiau ysgrifennu creadigol a sgriptio yn Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.

## S4C Digidol

Yr oedd dydd Sul, 15 Tachwedd, yn ddiwrnod pwysig yn hanes darlledu yng Nghymru, wrth i S4C lansio ei sianel newydd, S4C Digidol, yn darlledu 12 awr o deledu Cymraeg bob dydd o'r wythnos. Cyflwynydd rhaglen gyntaf un y sianel newydd, 'Croeso i'r Oes Ddigidol', oedd Nia Roberts, sy'n wreiddiol o Ynys Môn, ond yn un o drigolion y brifddinas ers blynyddoedd, bellach. Am gyngor ynghylch derbyn S4C Digidol, dylech alw Llinell Wybodaeth S4C Digidol ar 0800 389 3396.

## Diwrnod Dramatig

Ddydd Gwener, 30 Hydref, cynhaliodd Coleg Cerdd a Drama Cymru gwrs drama undydd ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd Cymraeg. Bwriad y cwrs oedd cynnig rhagflas o waith y Coleg i ddarpar-fyfyrwyr trwy eu gwahodd i ymuno mewn gweithdai Symud, Llais, Canu ac Adeiladu Cymeriad. Dyma'r eildro i'r Coleg gynnig cwrs undydd Cymraeg o'r fath. Y trefnydd oedd Catrin Llwyd, Cyfarwyddwraig Cyrsiau Cymraeg y Coleg.

## Tymor Newydd Eleri

Yn ddiweddar y mae Eleri Siôn wedi ailgydio mewn gwaith sy'n bleser pur iddi, sef bod yn sylwebydd rygbi. 'Wy'n gwylio rygbi, yn darllen am rygbi ac yn bwyta rygbi,' meddai Eleri, sy'n dod o Aberaeron ond sy'n byw ers tro yng Nghaerdydd. Arferai chwarae rygbi i Lambed, ac yna i dîm Prifysgol Caerdydd, lle y graddiodd yn y Gymraeg. Tra oedd yn y brifysgol, dechreuodd weithio fel un o ohebwyr chwaraeon Radio Cymru bob Sadwrn, a bellach daeth cyfle iddi ddychwelyd i'r maes trwy ddod yn aelod rheolaidd o dîm cyflwyno'r *Clwb Rygbi* ar S4C bob nos Wener a nos Sadwrn.

## Gwaith Cartref Helen

Pob llwyddiant i Helen Griffith, sy'n wyneb newydd ar dîm cyflwyno'r gyfres *Gwaith Cartref* ar S4C. O Gaernarfon y daw Helen yn wreiddiol ond y mae bellach yn byw yng Nghaerdydd. Cyfres yw *Gwaith Cartref* sy'n rhoi pob math o gynghorion amserol, tips defnyddiol a syniadau gwreiddiol a fydd yn eich helpu i drawsnewid eich tŷ heb wario gormod! Yn rhaglen gyntaf y gyfres newydd, ymwelwyd â dau dŷ teras yng Nghaerdydd a oedd yn edrych yn ddigon tebyg o'r tu allan, ond a oedd yn hollol wahanol ar y tu mewn, y naill yn fodern ac yn agored iawn, a'r llall yn cyfuno'r cartrefol a'r cyfoes.

## Dechrau Newydd i Huw

Un o wynebau a lleisiau mwyaf cyfarwydd byd darlledu Cymraeg, ac aelod o Gôr y Creigiau, yw cyflwynydd newydd un o raglenni mwyaf poblogaidd S4C, oherwydd Huw Llywelyn Williams sydd bellach yn ein croesawu i *Ddechrau Canu, Dechrau Canmol*, yn dilyn marwolaeth annhymig y Parch Meurwyn Williams. 'Rwy'n gwybod bod gen i dipyn o sialens o 'mlaen yn dilyn ôl traed Meurwyn,' meddai Huw, 'ac mae'n fraint cael dilyn ôl ei draed.' Yn ail raglen y gyfres newydd, ar 4 Hydref, Geraint Rees, prifathro ysgol gyfun Gymraeg newydd Caerdydd, Ysgol Plasmawr, oedd yn dewis ei ddetholiad o emynau.

## *Tair* (Michael Povey)

Daeth cynulleidfaoedd lluosog i Theatr yr Arena yn y Sherman yng Nghaerdydd ym mis Hydref pan lwyfannwyd *Tair* gan Michael Povey a gomisiynwyd gan Eisteddfod Genedlaethol Pen-y-bont ar Ogwr. Cafwyd actio graenus gan Lisabeth Miles, Betsan Llwyd a Catrin Powell.

## Cywaith Cymru

Mae Cywaith Cymru: Artworks Wales, y corff a sefydlwyd i hyrwyddo celfyddyd yn yr amgylchedd, newydd fynd yn gyfrifol am y Rhaglen Artistiaid Preswyl, a redid gynt gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Y cysylltbwynt cyntaf ar gyfer unrhyw ymholiadau am brosiectau artistiaid preswyl ac am waith Cywaith Cymru yn gyffredinol yw Dona Hughes, sy'n wreiddiol o Fachynlleth ond sy'n byw yng Nghaerdydd er 1992, pan ddaeth yma i astudio ar gyfer gradd mewn Gweinyddiaeth Fusnes. Rhif ei ffôn yw 01222-489543.

## Trip i Stadiwm Rygbi

Yn ddiweddar bu plant Ysgol Gymraeg Treganna yn ymweld â'r Stadiwm Rygbi newydd yng nghanol y ddinas. Amcan y trip oedd claddu capsiwl amser dan stand y gorllewin ar wahoddiad Cwmni Laing sy'n gyfrifol am godi'r stadiwm. Rhoddwyd plac ar dop y capsiwl a ddywedai: "Cyfoeth Cenedl yw ei Hanes". Mae'r ysgol hon yn dathlu ei degfed pen-blwydd eleni.

## Gwobr y Normal



Bwriedir sefydlu gwobr flynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn enw'r hen Goleg Normal ym Mangor gyda'r amcan o hybu gwaith llenyddol ar gyfer plant a ieuenctid, a chadw enw'r Normal yn fyw wrth wneud hynny. Pe baech am gyfrannu i'r gronfa, dylech gysylltu â Mr Islwyn Williams, Ymddiriedolaeth Ddatblygu, Prifysgol Cymru Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 2DG.

## Rotari Rhyngwladol

Yn Ebrill 2000 bydd Mudiad Rotari Rhyngwladol yn cynnal eu cynhadledd flynyddol yn y Ganolfan Ryngwladol yng Nghaerdydd. Disgwylir dros 6,000 o gynrychiolwyr i'r gynhadledd fydd yn para am chwe diwrnod. Dyma bluen arall yn het dinas Caerdydd sef llwyddo i ddenu gwahanol gyrff a mudiadau i ddefnyddio'r ddinas ar gyfer eu cynadleddau.

## Cyngor Eglwysi Cymru

Cyn bo hir iawn bydd Caerdydd a Chymru ar drothwy'r gystadleuaeth am Gwpan Rygbi'r Byd. Bydd y lle'n llawn o bobl y cyfryngau a gobaith Cyngor Eglwysi'r ddinas yw sicrhau bod gan yr eglwysi Cristnogol ran yn y dathliadau.

Anogir hwy i gynnal gwasanaethau arbennig ar un o'r Suliau perthnasol i'r gystadleuaeth a bwriedir gofyn i eglwysi canol y ddinas agor eu hadeiladau i fod yn ganolfannau gorffwys a phaned. Trefniant ar y cyd gydag eglwysi nad ydyn nhw wedi eu lleoli'n ganolog fydd hwn. Ystyrir hefyd gynnig llety yn null Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i deuluoedd chwaraewyr a garai groeso aelwyd yn hytrach na gwesty.

Bydd y gymdeithas *Cristnogion mewn Chwaraeon* yn paratoi llenyddiaeth addas ac fe'i dosberthir ar y strydoedd yn ystod gemau'r gystadleuaeth.

## Ysgolion yn Dathlu

Nid Ysgol Bryntaf yw'r unig ysgol gynradd Gymraeg a fydd yn dathlu hanner canmlwyddiant ei sefydlu yn 1999. Mae Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug, yn trefnu i ddathlu ei 50fed pen-blwydd ar 1 Mai 1999 (manylion pellach o'r ysgol: 01352-700384), ac mae cyfres o ddathliadau wedi'i threfnu gan Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl, i ddathlu ei 50fed pen-blwydd hithau (manylion pellach o'r ysgol: 01745-351355).


## Termau'r Cynulliad

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi comisiynu'r Ganolfan Safoni Termau yn y Brifysgol ym Mangor i gasglu ynghyd mewn cronfa ddata restrau o dermau yn y meysydd y bydd gan y Cynulliad Cenedlaethol ddiddordeb arbennig ynddynt. Y meysydd dan sylw yw Addysg, Amaethyddiaeth, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Hyfforddiant, Trafnidiaeth, Cyllid, Diwydiant a'r Amgylchedd. Mae'r Ganolfan am ddarganfod pa dermau sy'n cael eu defnyddio eisoes yn y Gymraeg, ac yn apelio ar i unigolion, cwmnïau, sefydliadau, cymdeithasau a mudiadau anfon unrhyw restr o dermau a luniwyd ganddynt at Delyth Prys, Canolfan Safoni Termau, Yr Ysgol Addysg, Trefenai, Ffordd Caergybi, Bangor LL57 2UW.

Cwmni sydd â phrofiad helaeth yn maes safoni termau ar gyfer deddfwriaeth amlieithog yng ngwpledydd Ewrop, sef y Fenter Iaith Ewropeaidd, sydd wedi cael y gwaith o gynhyrchu'r rhestr o eiriau, termau ac ymadroddion safonol a fydd yn cael eu defnyddio gan y Cynulliad yn ei weinyddiaeth. Y mae aelodau o staff Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd yn rhan o'r tîm sy'n paratoi'r rhestr honno.

## Y Gymraeg a'r Gwasanaeth Iechyd

Mae Cyngor Defnyddwyr Cymru wedi cychwyn ar brosiect sy'n edrych ar brofiadau amrywiol cleifion a staff Cymraeg eu hiaith wrth iddynt geisio defnyddio'r Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd. Maent am glywed gan bobl o bob math a phob oedran, pa un ai da neu wael yw eu profiadau, a chaiff pob gwybodaeth ei thrin yn gyfrinachol. I ddweud eich dweud, cysylltwch â Chyngor Defnyddwyr Cymru, Cwrt y Groes Hir, 47 Heol Casnewydd, Caerdydd CF2 1 WL (ffôn: 01222-255454; e-bost: info@wales.consumer.org.uk).



## J. A. HUGHES gyda REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222

---

## Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

### Ffair Nadolig

Dewch yn llu i ddathlu'r Wyl

27ain o Dachwedd 1998, 4.15pm - 7.00pm

Dyma gyfle gwych i chi brynu **anrhegion, cardiau a danteithion** traddodiadol ar gyfer y Nadolig.
Gemau ar gyfer plant!
Coffi, tê a chacennau ar gyfer rhieni blinedig!
**Pris Mynediad** – Oedolion = 50c, Plant = Mynediad am Ddim
Mae'r ffair yn cael ei drefnu gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Plasmawr.
Cysylltwch â Mrs. Siriol Wilde am fwy o fanylion
(01222) 405499

### Gwasanaeth Nadolig

*ANGHOFIWCH Y SIOPA!*

Dewch i fyfyrio ar bwysigrwydd y Nadolig yng nghwmni disgyblion ac athrawon Plasmawr

**14fed o Ragfyr - 7.00pm**

**Eglwys Annibynnol Ebeneser, Caerdydd**

Bydd cyfle i ni gymdeithasu wedi'r gwasanaeth yn y festri dros baned a chacen.

*Bydd casgliad yn cael ei wneud ar y noson i roi cymorth i'r rhai sydd mewn argyfwng yn Honduras.*

MYNEDIAD AM DDIM

---

## Le gallois

Y Cymro

AR AGOR:
DYDD MAWRTH - SADWRN

CINIO – £7.95 + £10.95
12.00 - 2.30 P.M.

CINIO NOS – A LA CARTE
6.30 - 10.30 P.M.

6-8 ROMILLY CRESCENT, CANTON,
CAERDYDD CF1 9NR
FFÔN: 01222 341264
FFACS: 01222 237911
E-BOST: le.gallois@virgin.net

---

*Cynhelir* Cyrddau Sefydlu'r

**Parchedig Ieuan Davies,** B.A., B.D.
(Minny St. Caerdydd)

*yn weinidog* Y Tabernacl Treforys

*ar* Nos Fercher, Tachwedd 25 1998

am 7.00 o'r gloch

* * * * *

*Croeso cynnes i bawb*

---

## TRYDANWR

***gyda dros 20 mlynedd o brofiad***

Prisoedd rhesymol am ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd.

Ffoniwch **Caerwyn Davies** ar
**01222 868208** neu **0468 973229**

---

## GEMAU LERPWL YN ANFIELD

Oedolion £40 / Plant o dan 17 oed £30
*(gan gynnwys tocyn i'r gêm)*

Gellid trefnu ar gyfer Clybiau Ieuenctid AYYB

Cysylltwch â 01222 617860 yn ystod oriau gwaith neu 01222 340885 gyda'r nos neu ar y penwythnos